

Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chynnal proffidioldeb trwy gadw at yr amserlen a bod yn fwriadol a chraff wrth wneud newidiadau, datrys problemau ac ymateb i geisiadau cleientiaid am ategolion.

Dylai'r Safon hon fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n ymwneud â monitro cyllid a phroffidioldeb prosiectau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cynllunio'ch gwaith i fodloni'r gofynion cost ac amser ar gyfer eich rhan chi o'r llif gwaith
2. egluro ansicrwydd ynghylch yr hyn a ddisgwylir gyda phobl berthnasol
3. cynnal eich amserlen yn unol â'r hyn y cytunwyd
4. ymgynghori â chydweithwyr perthnasol ynglŷn ag effaith unrhyw broblemau yn eich gwaith ar ofynion cost ac amser
5. asesu effaith newidiadau posibl ar yr amserlen, y gyllideb, proffidioldeb a llif arian
6. cynnal asesiad realistig o oblygiadau cost ac amser unrhyw newidiadau posibl yn yr atodlen neu welliannau posibl i'r cynnyrch
7. ymgynghori â chydweithwyr perthnasol ar feysydd sydd y tu allan i'ch awdurdod
8. sicrhau cydbwysedd rhwng colli elw neu enw da a chynnal perthnasau gyda chleientiaid wrth nodi a ddylid codi tâl am neu amsugno costau ychwanegol
9. cytuno ar benderfyniadau sy'n cynyddu neu'n lleihau'r gost neu'r amser a gymerir neu sy'n effeithio ar y cynnyrch gyda chydweithwyr perthnasol
10. cynnal diogelwch ffeiliau a deunydd arall yn unol â gofynion y cwmni

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sail costau, cyfraddau, trosiant ac elw yn y prosiect penodol
2. llif arian a'i effaith debygol ar gyflwr presennol y busnes
3. perfformiad a gofynion amser gwahanol gamau o'r llif gwaith ar gyfer prosiect
4. galluedd a ffyrdd o weithio'r gwahanol gyfranwyr ar brosiect
5. gofynion a chyfyngiadau technegol y prosiect a'r cyfleusterau
6. risgiau o fewn y prosiect a'i lif gwaith a sut i'w lliniaru
7. ffyrdd o wella ansawdd a chyflymder cyflwyno
8. sut i drafod problemau cleientiaid gyda chynnyrch neu lif gwaith
9. rhesymau dros newidiadau i amserlen neu gynnyrch, gan gynnwys problemau mewn tasg, estyniadau a ofynnwyd gan gleientiaid neu gydweithwyr, gwelliannau posibl i'r cynnyrch a nodwyd gennych chi neu'ch cydweithwyr
10. sut i bwysu a mesur costau a buddion newidiadau annisgwyl i brosiect
11. systemau cwmni ar gyfer storio wrth gefn a diogelwch

Monitro cyllid a phroffidioldeb cyfraniadau tuag at brosiect

Datblygwyd gan	ScreenSkills
Dyddiad cymeradwyo	31 Ion 2017
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Ion 2020
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Creative Skillset
RCU gwreiddiol	SKSPP07
Galwedigaethau perthnasol	Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu
Cyfres/Set	Ôl-gynhyrchu
Geiriau Allweddol	Ôl-gynhyrchu, Cynhyrchu, Ffilm, Theledu, Cyllid, Elw, Cyllidebau, Cleient